

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	FFRAMWAITH CYNLLUNIO BLYNYDDOL GIG CYMRU 2021-22
Swyddog(ion) sy'n cwblhau'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Heather Giles Cynllunio'r GIG Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran:	Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth yr Is-adran/SRO (enw):	Samia Saeed Edmonds
Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:	Vaughan Gething AC, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Dyddiad Dechrau:	25 TACHWEDD 2020

ADRAN 1. PA GAMAU MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Cyflwyniad

Mae Deddf GIG Cymru 2006 yn gosod dyletswydd ariannol ar fyrddau iechyd i 'fantoli'r gyllideb' bob blwyddyn yn ystod cyfnod cyfrifyddu o dair blynedd. Hefyd o dan y Ddeddf hon, mae gan Weinidogion ddyletswydd i roi 'Cyfarwyddiadau' i fyrddau iechyd, a sefydliadau eraill yn anffurfiol, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt baratoi cynllun i wella iechyd y bobl y maent yn gyfrifol amdanynt, a darparu gofal iechyd i'r cyfryw bobl.

Diwygiodd Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 Ddeddf 2006. Roedd y gwelliant hwn yn sicrhau y dylai pob bwrdd iechyd 'fantoli'r gyllideb' dros gyfnod o dair blynedd, yn hytrach na blwyddyn. Caniateir i Weinidogion Cymru hefyd ganiatáu rhywfaint o oddefiant.

Mae Fframweithiau Cynllunio'r GIG wedi'u cyhoeddi'n flynyddol am y saith mlynedd diwethaf gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cyflawni'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod 'Cyfarwyddiadau' i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn galluogi byrddau iechyd i gyflawni eu dyletswyddau drwy lunio cynllun cymeradwy, sef y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig (IMTPs).

Am y tro cyntaf, cafodd y broses cynllunio tymor canolig integredig ei hoedi ym mis Mawrth 2020, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Mae pob cymeradwyaeth IMTP yn parhau yn ei lle o'r flwyddyn flaenorol a chyflwynwyd trefniadau cynllunio chwarterol ar gyfer 2020-21.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu a **chyhoeddi Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru ar gyfer 2021-22 ('y fframwaith')**. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i holl sefydliadau'r GIG gyflwyno cynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021.

Rhesymwaith ar gyfer y cynllunio blynyddol

Gyda COVID-19 yn dal i fod yn bresennol yn ein cymunedau bydd angen i'r GIG gynllunio yng nghyd-destun ansicrwydd sylweddol gydag ystwythder a hyblygrwydd. Byddai'n anodd i unrhyw sefydliad lunio, a chael cymeradwyaeth bwrdd ar gyfer cynllun tair blynedd cytbwys, gydag unrhyw elfen o sicrwydd.

Nid oes sail i ofnau bod cynlluniau byr yn arwain at lai o graffu o ran y ddyletswydd dreigl ariannol. Bu ymgysylltu'n amlach â Phrif Weithredwyr a grwpiau proffesiynol dros y chwe mis diwethaf. Yn ogystal, mae'r trefniadau cynllunio a'r set ddata ofynnol a gyflwynwyd ar gyfer Chwarter 3 a Chwarter 4 eleni wedi caniatáu trafodaethau a dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o benderfyniadau sefydliadau a rheoli risgiau.

Mae cyflwyno'r gofyniad am gynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 yn esblygiad naturiol o'r trefniadau cynllunio chwarterol a gefnogwyd yn 2020-21. Byddai'n anodd symud yn ôl i IMTPs tair blynedd o amgylchedd cynllunio hylifol a chyfnewidiol iawn, sy'n dal i fodoli.

Bydd cynllun blynyddol ar gyfer 2021-22 yn sylfaen gadarn i sefydliadau aildddechrau'r broses IMTP ffurfiol yn y dyfodol.

Datblygwyd y fframwaith yn gyson gyda *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* wrth wraidd ein meddylfryd, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio, a chyd-fynd â'r ymrwymadau a wnaed yn *Cymru lachach*.

Hirdymor

Mae'r fframwaith yn cwmpasu'r cyfnod o 12 mis rhwng 21 Ebrill a 22 Mawrth. Er bod y cynllun yn canolbwyntio ar agweddau gweithredol, dylid hefyd ei ystyried fel y cam cyntaf i ailosod ac adfer yn y tymor hwy.


Mae nodau ac uchelgeisiau tymor hwy y byddai cynllunio strategol yn disgwyl gallu eu cefnogi. Mae'r angen i ganolbwyntio'n fwy gweithredol am y 12 mis nesaf yn adlewyrchiad o'r amgylchedd yr ydym i gyd yn ein cael ein hunain ynddo. Fodd bynnag, mae bod yn ymwybodol o'r nodau ac ymrwymadau tymor hwy, megis datgarboneiddio, dyletswydd economaidd-gymdeithasol, a llesiant cenedlaethau'r dyfodol, yn galluogi'r penderfyniadau gweithredol hynny i gael eu gwneud yn erbyn cefndir o'r nodau hyn mewn golwg.

Daw'r angen i ganolbwyntio ar faterion gweithredol o ganlyniad i COVID-19, sydd wedi bod yn bandemig a effeithiodd ar y byd i gyd, gan gyrraedd Ewrop yng ngwanwyn 2020. Yng Nghymru, ar 6 Hydref, cadarnhawyd bod gan dros 26,000 o bobl COVID-19 a bu 1640 o farwolaethau:

[Data Gwylidwriaeth ddyddiol COVID-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

Rhaid inni gynllunio a newid y ffordd rydym yn byw ein bywydau a'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol i addasu i'r heriau y mae COVID-19 yn eu cyflwyno.

Mae Cynllun Diogelu'r Gaeaf a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 yn mynd i'r afael â phedair lefel y niwed gan COVID-19: [Cynllun Diogelu'r Gaeaf Llywodraeth Cymru 2020-21h](#)



Mae'r gofynion yng Nghynllun Diogelu'r Gaeaf a Fframwaith Gweithredu Chwarter 3/Chwarter 4, a gyhoeddwyd yn fuan wedyn, yn ategu ac yn cefnogi'r rhai a gynhwysir yn y fframwaith hwn. Y bwriad yw cynllunio i fod yn weithgaredd parhaus, gan adolygu ac adnewyddu'r hyn sydd wedi mynd o'r blaen, yn hytrach na bod cynllun newydd, cwbl annibynnol, yn cael ei ddatblygu bob tro.

Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith a wneir i ymateb i'r pandemig yn hanfodol i gefnogi adferiad a pharhad hirdymor. Bydd y fframwaith yn cydnabod yr angen i adlewyrchu'r cyfleoedd sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y pandemig i gefnogi ffyrdd newydd o weithio,

megis cyflwyno atebion arloesol a digidol, buddsoddiad ariannol a threfniadau partneriaeth, llywodraethu a chynllunio cryfach.

Atal

Mae'r fframwaith yn cefnogi'r agenda atal, sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG gynllunio eu gweithgareddau i sicrhau eu bod yn mynd i'r afael ag atal lledaeniad ac effaith COVID-19 ac yn cefnogi'r bobl hynny sydd â chyflyrau iechyd eraill.

Gan osod yr adran atal yn y maes iechyd cyhoeddus ehangach, gwyddom fod COVID wedi cael effaith anghymesur ar bobl sydd dros eu pwysau, sydd â diabetes a phwysedd gwaed uchel, ysmygwyr etc felly mae datblygu dulliau ataliol yn hanfodol i wella canlyniadau ac atal afiechyd.

Mae sicrhau sgrinio yn allweddol i ddiagnosis a thriniaeth ac maent yn aml yn atal dwysáu gofal ac effeithiau cynyddol ar gleifion ac yn gwella canlyniadau lle ceir diagnosis cynnar.

Bydd y rhaglen frechu yn flaenoriaeth bwysig o fewn y fframwaith. Mae'r rhaglen yn flaenoriaeth gan ei bod yn cwmpasu'r brechiadau a'r imiwneiddiadau plentynod arferol er mwyn cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel, brechiadau rhag y fflw a'r brechu torfol rhag COVID-19, sy'n debygol o gael ei ddefnyddio'n helaeth yn 2021-22.

Bydd ffocws parhaus yn cael ei roi ar y strategaeth Profi Olrhain Diogelu o fewn y fframwaith. Y disgwyl fydd i sefydliadau gydnabod bod angen iddynt weithio'n agos gydag awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu profi a'u holrhain cyn gynted â phosibl er mwyn ffrwyno lledaeniad ac effaith COVID-19 gymaint â phosibl.

Yn yr un modd, mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried y ffordd orau o drin y rhai â chyflyrau nad ydynt yn COVID-19, er mwyn sicrhau bod cleifion â symptomau yn gallu cael diagnosis a thriniaeth gyflym i atal eu clefyd rhag datblygu ymhellach, yn enwedig y rhai â salwch sy'n peryglu bywyd.

Integreiddio

Rhoddwyd ystyriaeth i Ffyniant i Bawb. Mae'r fframwaith yn pennu'r cyd-destun y disgwylir i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG gynllunio ar ei gyfer ar gyfer 2021-22.

Cydnabyddir yr angen i adeiladu gwasanaeth di-dor integredig yn *Cymru Iachach*.

[Cynllun Gweithredu Cymru Iachach](#)

Er mai ffocws gweithredol sydd i'r fframwaith, bydd angen i sefydliadau iechyd nodi'n glir sut y maent yn disgwyl gweithio mewn ffordd integredig gyda'u partneriaid statudol ac anstatudol i reoli eu gweithgarwch dros y cyfnod o 12 mis rhwng 21 Ebrill a 22 Mawrth.

Mae angen i'r fframwaith adlewyrchu dull integredig o gynllunio hefyd. Fel bod y cynlluniau a gynhyrchir yn mynd i'r afael â'r pedwar niwed, sef yr ymagwedd sylfaenol at wella yng Nghymru.

Bydd y fframwaith yn nodi'r disgwyliad bod rhaid i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG barhau i gymryd camau i leihau effaith y pedwar niwed sy'n cynnwys:

- parhau'n barod i ddarparu'r amrediad llawn o wasanaethau sydd eu hangen i atal, gwneud diagnosis, ynysu a thrin cleifion COVID-19
- sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau hanfodol bob amser. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n rhai brys ac yn peryglu bywyd neu sy'n effeithio ar fywyd yn ogystal â gwasanaethau a allai, heb ymyrraeth amserol, arwain at niwed yn y tymor hwy megis cynnal rhaglenni brechu
- adfer gwasanaethau rheolaidd lle mae'n weithredol bosibl ac yn ddiogel gwneud hynny, gan gadw'n gaeth at weithdrefnau atal a hylendid heintiau a gwneud y defnydd gorau posibl o ymgynghoriadau rhithwir; a
- gweithio i adolygu atgyfeiriadau'r rhai sy'n aros a sicrhau bod pobl wedi cael blaenoriaeth yn ôl angen clinigol.

Bydd y fframwaith yn parhau'n ymrwymedig i'r dull hwn.

Cydweithio

Mae *Ffyniant i Bawb* yn hyrwyddo cydweithio ar draws ffiniau i sicrhau gwelliant mewn iechyd a llesiant i boblogaeth Cymru.

Mae'r fframwaith yn ddogfen bwysig a fydd yn cyflawni'r ddyletswydd ar Weinidog i gynnis Cyfarwyddiadau i'r gwasanaeth. Mae fframwaith cynllunio'r GIG yn adnabyddus ar draws ystod o randdeiliaid ac maent yn ymwybodol o'r amserlen gynllunio arferol y mae sefydliadau iechyd yn gweithio iddi.

Mae'r fframwaith, er ei fod yn canolbwyntio ar y 12 mis 21 Ebrill 21 i 22 Mawrth, yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad partner ddangos ei gyfraniad at fynd i'r afael â COVID-19 ac atal lledaeniad ac effaith bellach o'r clefyd dros y flwyddyn ariannol nesaf. Y disgwyliad yw y bydd COVID-19 yn dal i gylchredeg yn ein cymunedau am beth amser i ddod a bydd angen i bob partner gydweithio i sicrhau bod lledaeniad ac effaith COVID-19 yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.

Er bod y cyfnod amser i gynhyrchu'r fframwaith wedi bod yn fyr, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod amrediad eang o randdeiliaid wedi cael gwybod am ei ddatblygiad, gan gynnwys aelodau o'r Senedd.

Cyfranogiad

Datblygwyd y fframwaith er mwyn tywys sefydliadau'r GIG i'r hyn y dylent ganolbwyntio arno ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y fframwaith yn cefnogi eu prosesau cynllunio eu hunain er mwyn iddynt lunio cynllun y cytunwyd arno gan eu bwrdd ac y gellir ei gyflwyno erbyn 31 Mawrth 2021.

Mae sefydliadau GIG Cymru, awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol yn ymwybodol o'r broses gynllunio flynyddol ac maent wedi cefnogi'r dull blynyddol a fabwysiadwyd ar gyfer 2021-22. Er bod rhywfaint o gyfranogiad wedi gallu cael ei gynnal gyda rhai grwpiau a gweithwyr proffesiynol, yn sgil cynhyrchu fframweithiau cynllunio

chwarterol a chynllun diogelu'r gaeaf yn ystod yr wythnosau diwethaf bu llai o gyfle i gynnwys cydweithwyr yn llawn yn y datblygiad nag y byddai wedi digwydd yn ddelfrydol.

Effaith

Mae'r fframwaith yn cyflawni'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi 'Cyfarwyddiadau' i'r GIG yng Nghymru o dan Ddeddf GIG Cymru 2006 a'r dyletswyddau diwygiedig a bennwyd yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae'r fframwaith yn darparu'r cyd-destun y mae disgwyl i fyrddau iechyd a sefydliadau eraill y GIG weithio o'i fewn i fynd i'r afael â'r heriau sy'n eu hwynebu yn 2021-22.

Bydd y fframwaith yn adeiladu ar y fframweithiau chwarterol a gyhoeddwyd yn 2020-21 ac yn defnyddio'r blaenoriaethau cyffredinol a nodir yng Nghynllun Diogelu'r Gaeaf Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ganol mis Medi.

[Fframwaith Gweithredu GIG Cymru-chwarter-1-2020-2021](#)

[Cynllun Gweithredu GIG Cymru-chwarter-2-2020-2021](#)

[Fframwaith Gweithredu GIG Cymru-chwarter-3-chwarter 4-2020-21](#)

[Cynllun Diogelu'r Gaeaf Llywodraeth Cymru 2020-21](#)

Bydd y fframwaith yn rhoi sicrwydd a chyfeiriad ynghylch yr hyn sydd ei angen nesaf i gadw gwasanaethau'n gydgyssylltiedig a chefnogi cleifion a staff dros y 12 mis nesaf. Bydd yn rhoi negeseuon clir i'r cyhoedd a rhanddeiliaid y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i gefnogi lefelau uwch o brofion, drwy Strategaeth Profi Orlhain Diogelu Cymru, yn ogystal â chynnal ymgyrch frechu estynedig a chynhwysfawr y flwyddyn nesaf.

Costau ac Arbedion

Ni fydd unrhyw gost ariannol yn codi o ran cwmpasu a datblygu'r fframwaith gan y grŵp iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o fewn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, bu buddsoddiad sylweddol eisoes yn y seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod 2020-21 i gefnogi'r prif ofynion a nodir yn y fframwaith. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys:

- Dyrannwyd dros £1.3bn i gefnogi ymateb y GIG i Covid. Mae hyn yn cynnwys y cyllid sefydlogi o £800m ar gyfer GIG Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst.
- £45m ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Profi Orlhain Diogelu
- £62.7m drwy gronfa Caledi'r Awdurdodau Lleol, i gefnogi darparwyr gofal cymdeithasol i oedolion.
- £40m i gefnogi'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Defnyddir yr arian hwn i gefnogi camau gweithredu sy'n parhau yn 2021-22 a chyhoeddir y dyraniadau cyllid ar gyfer 2021-22 yn yr hydref.

Mecanwaith

Nid yw deddfwriaeth yn cael ei chynnig fel rhan o'r gwaith hwn, nid oes angen asesiad effaith rheoleiddiol.

ADRAN 7. CASGLIAD

7.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Cynhyrchwyd fframweithiau cynllunio yn flynyddol i ddarparu'r 'Cyfarwyddiadau' i'r gwasanaeth, yn barod i sefydliadau'r GIG gael cynllun wedi'i gymeradwyo ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r fframwaith eleni yn esblygiad naturiol o'r fframweithiau gweithredol chwarterol a ail-gyhoeddwyd gennym yn 2020-21 fel ymateb i'r pandemig COVID-19. Bydd y fframwaith ar gyfer 2021-22 yn cael ei ddatblygu'n gyflym er mwyn rhoi gwybodaeth ac arweiniad priodol i'r GIG yng Nghymru o ran blaenoriaethau'r Gweinidogion, yn ogystal â gosod y cyd-destun ar gyfer yr amgylchedd presennol yr ydym yn gweithredu o'i fewn.

Y bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yw rheolwyr, staff proffesiynol a chlinigol ar draws GIG Cymru, yn ogystal â phartneriaid awdurdodau lleol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, y mae pob un ohonynt yn cefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd cleifion hefyd yn cael eu heffeithio gan y ffordd y mae sefydliadau'n bwriadu eu cefnogi, drwy fynd i'r afael â'r pedwar niwed a gymeradwywyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Mae'r holl randdeiliaid wedi cael gwybod am y gwaith o gynhyrchu'r fframwaith cynllunio blynyddol 2021-22. Cytunodd y Gweinidog ar y dull hwn ar 22 Hydref 2020.

Caiff y fframwaith ei ddatblygu drwy drafod â chydweithwyr ar draws yr adran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol o fewn Llywodraeth Cymru, arweinwyr proffesiynol ac uwch gydweithwyr o'r tu mewn i'r gwasanaeth megis Prif Weithredwyr y GIG, Cyfarwyddwyr Cynllunio, a Chyfarwyddwyr Cyllid ac ati.

Bydd y fframwaith hwn yn adeiladu ar y meysydd a amlinellir yn y Cynllun Diogelu'r Gaeaf a Fframwaith Chwarter 3/ Chwarter 4 GIG Cymru. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddarparu'r dogfennau hynny hefyd wedi helpu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith hwn.

Mae rhanddeiliaid yn ymwybodol o ddatblygiad y fframwaith drwy ohebiaeth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru ac maent yn cael gwybod y bydd y fframwaith yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2020.

7.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, cadarnhaol a negyddol?

Dylai'r fframwaith gael effaith gadarnhaol ar bobl ar draws Cymru. Y fframwaith yw 'Cyfarwyddiadau' y Gweinidog i'r GIG fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith o dan Ddeddf GIG Cymru 2006 a ddiwygiwyd gan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

Mae'n nodi'r hyn sy'n ofynnol gan fyrddau iechyd, a sefydliadau eraill y GIG, y mae angen iddynt ei ystyried wrth ddatblygu eu cynlluniau ar gyfer 2021-22. Ni fydd sefydliadau'n dechrau o'r newydd ond byddant yn adeiladu ar y datblygiadau y maent eisoes wedi'u gwneud mewn ymateb i Gynllun Diogelu'r Gaeaf a'r Fframwaith Gweithredu Chwarter 3/ Chwarter 4, sy'n eu harwain dros y gaeaf sydd i ddod. Mae'r cynllun blynyddol yn esblygu o'r cynllunio hwn ac yn mynd â'r sefydliad ar gam nesaf ei daith.

Mae angen i fyrddau iechyd gynllunio i ddiwallu anghenion iechyd eu poblogaethau eu hunain a rhaid iddynt wneud hynny waeth beth fo'u hoedran, hil, crefydd ac ati. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn glir bod angen i sefydliadau sicrhau bod pobl yn cael mynediad cyfartal at ddiagnosis a thriniaeth ar draws y pedwar niwed.

Mae cydnabyddiaeth yn y fframwaith bod COVID-19 wedi effeithio'n andwyol ar rai grwpiau o bobl. Mae'r fframwaith yn atgyfnerthu'r angen i sefydliadau liniaru hyn, gan ddefnyddio'r trefniadau profi, olrhain a diogelu sydd â'r nod o leihau lledaeniad COVID-19 a chefnogi rhaglenni brechu ar gyfer plant a phobl ifanc, y fflw a COVID-19 wrth i frechlynnau ddod ar gael. Mae'r rhain yn bileri allweddol ar gyfer eu cynlluniau blynyddol yn 2021-22.

Mae'r fframwaith yn cydnabod yr angen i wasanaethau hanfodol weithredu drwy gydol 2021-22 i sicrhau bod pobl â chyflyrau nad ydynt yn COVID-19 yn gallu ceisio cyngor a thriniaeth yn ddiogel ac yn amserol. Mae'n bwysig bod y cynlluniau'n dangos cydbwysedd yn hyn o beth ac mae'r fframwaith yn annog y dull hwn.

7.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **Gwneud y mwyaf o gyfraniad i'n hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant a/neu;**
- **Osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol**

Ategir y fframwaith gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2016 a 'Cymru Iachach'. Gall gwasanaethau iechyd a chymdeithasol Cymru ddarparu triniaeth a gofal priodol i bobl â symptomau COVID-19 a'r rhai â chyflyrau eraill nad ydynt yn rhai COVID-19.

Mae'r fframwaith yn hyrwyddo dull integredig o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol ac mae defnyddio'r pedwar niwed fel strwythur yn hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ac yn ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd a llesiant.

7.4 Sut caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd yn ei flaen a phan ddaw i ben?

Caiff effaith y fframwaith ei monitro drwy gynhyrchu'r cynlluniau blynyddol a gyflwynir gan fyrddau iechyd, a sefydliadau eraill, erbyn 31 Mawrth 2021.

Caiff y cynlluniau blynyddol eu hadolygu a'u monitro yn ystod 2021-22, er mwyn asesu pa mor dda y gall pob sefydliad fynd i'r afael â'r gofynion a chyflawni'r ymrwymadau ehangach i gadw Cymru'n ddiogel.